# CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR SAFONAU DYDD MERCHER, 7 GORFFENNAF 2021

**Presenoldeb:**

**Aelodau Etholedig:** Y Cynghorwyr Beth Lawton a Dewi Roberts

**Aelodau Annibynnol:** Mr Aled Jones, Mr Hywel Eifion Jones, Miss Margaret E.Jones, Mr Dave Wareing a'r Dr Einir Young (Cadeirydd)

**Aelod Pwyllgor Cymunedol:** Mr Richard Parry Hughes

**Hefyd yn bresennol:** Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr – Corfforaethol) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Anne Lloyd Jones.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

**4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD y dylid cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 18C, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd ei fod yn ymwneud â thrafodion y Pwyllgor Safonau wrth ddod i benderfyniad ar fater a gyfeiriwyd ato gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Credir na ddylid datgelu'r wybodaeth rhag ofn i unrhyw gyhoeddusrwydd ynglŷn â'r achos ragfarnu sefyllfa'r cynghorydd cyn unrhyw wrandawiad. Fel canlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

**5. ADRODDIAD OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU AR YMCHWILIAD I GWYN YN ERBYN CYNGHORYDD**

Cyflwynwyd – adroddiad yr Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol) yn gwahodd y pwyllgor i ystyried adroddiad yr Ombwdsmon ar ymchwiliad i gŵyn yn erbyn cynghorydd, a dod i benderfyniad yn unol â gofynion y rheoliadau perthnasol.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Gwahodd y person sy'n destun yr ymchwiliad i gyflwyno sylwadau, naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, mewn perthynas â chasgliadau'r ymchwiliad ac unrhyw honiad ei fod ef / hi wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod perthnasol.**

**(b) Galw cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Safonau i ystyried a phenderfynu ar y mater.**

**(c) Gwahodd yr Ombwdsmon i'r gwrandawiad i gyflwyno'r adroddiad a / neu egluro unrhyw faterion sydd ynddo.**

**(ch) Bod y swyddogion, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yn gosod dyddiad (ynghyd â dau wrth gefn) ar gyfer cynnal y gwrandawiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 y.h. a daeth i ben am 2.50 y.h.

**CADEIRYDD**